FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN)

# Gwyliau ffilm Cymru yn 2026

**Cefnogi cyrff sydd yn cyflwyno ffilmiau Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd ar draws Cymru a'r DU.**

Mae'r canllaw wedi'i ddylunio i roi trosolwg o wyliau ffilm yng Nghymru yn 2026. Os ydych chi'n ŵyl sy'n chwilio am gyllid, gweler ein Cronfa Arddangos Ffilm neu ein Bwrsariaeth Hyfforddiant a Sgiliau.

BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK
THE NATIONAL LOTTERY
CHAPTER

# Cipolwg:

**40** Cyfanswm Gwyliau Ffilm

**34** o ddigwyddiadau Cymreig

**5** o ddigwyddiadau DU wedi'u cyflwyno yng Nghymru[1]

**1** digwyddiad rhyngwladol wedi'i gyflwyno yng Nghymru

**20** thema bendant o antur i sinema Affricanaidd

**1.4** gwyliau wedi'u datblygu bob blwyddyn rhwng 1980-2025

**28** wedi rhoi'r gorau i weithredu (cynnydd o 2 yn 2024/25)

# Mwy amdan Ganolfan Ffilm Cymru

Rydym ni, Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilmiau, o wyliau ffilm, i gymdeithasau ffilm a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 270 o arddangoswyr Cymreig, ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU.

Roeddem hefyd yn falch o arwain strategaeth Inclusive Cinema y DU ar ran FAN BFI 2017-23.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y BFI fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), mae Chapter wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Am enghreifftiau o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru.

---


[1] Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod llawer yn fwy, gan nad ydym yn cynnwys rhaglenni gwyliau teithiol. Ar hyn o bryd mae'n seiliedig ar wyliau sy'n dychwelyd yn unig.

# Pwy yw'r Gwyliau?

Gweler ein map aelodau am restr o wyliau cyfredol Cymru. Rydym yn diweddaru'r map yn rheolaidd. Mae gennym ni hefyd flog sy'n rhoi manylion am y gwyliau yma.

# Lledaeniad daearyddol

Sylw ar draws Cymru gyda chrynodiad yn y de ddwyrain.





# Derbyniadau

Rhwng **30 – 25,000** o dderbyniadau.

Mae 73% o'r gwyliau a fapiwyd yn cael eu hystyried yn lleol, ac yn cyrraedd hyd at 4,500 o bobl yn flynyddol. Mae rhai gwyliau yn cynnwys cyfran o niferoedd ar-lein yn eu cyfanswm.

Ar draws sampl o 21, cyfrifwyd derbyniadau cyfartalog o 4,800. Caiff y nifer ei effeithio gan dri digwyddiad o bwys (mae dau o'r rhain yn y DU ac ond yn cael eu cyflwyno'n rhannol yng Nghymru). Wrth dynnu'r rhain o'r sampl, mae'r cyfartaledd yn gostwng i 2,225.

# Themâu Gŵyl Unigryw




# Partneriaid Defnyddiol

- **Gronfa Cynulleidfa BFI**: Gall gwyliau o bwys cenedlaethol (DU) gael cyllid gan y BFI,
- **Ffilm Cymru Wales:** Gall gwyliau gael cyllid drwy'r Cronfa Arddangos Ffilm,
- **Creative Wales:** Cysylltwch â'r tîm am opsiynau ariannu,
- **BAFTA Cymru:** Gall gwyliau ddod yn bartner gŵyl achrededig,
- **Gwobr Iris:** Gweler Gorau o Iris, enghraifft dda fel gŵyl fwyaf Cymru,
- **Swyddfa Sinema Annibynnol (ICO):** mynediad i gynigion hyfforddi cenedlaethol,
- **WCVA, VAW (Creative Lives) ac University of South Wales:** darparu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc greadigol lle bo hynny'n ymarferol,
- **British Council:** Ymddangoswch ar fas data gwyliau a darganfyddwch ffilmiau,
- **Cymynrodd Sinema Gynhwysol:** am gyngor mynediad gan gynnwys 'Datgymalu Anghydraddoldeb Strwythurol yn Eich Sinema'.

# Cyllid ar Gael

## Cynulleidfaoedd:

- Cronfa Arddangos Ffilmiau (CAFf) (datblygu cynulleidfaoedd mwy rhaglenni)
- Potyn Pitshio CAFf (digwyddiadau unigol neu raglenni tymor byr)
- Gwnaethpwyd yng Nghymru (dylid ymgeisio i CAFf)

## Training:

- Bwrsariaeth Hyfforddiant a Sgiliau

Rydym hefyd yn cynnig digwyddiadau rhwydweithio, cyrsiau hyfforddi, cymorth marchnata a newyddion diwydiant.Dewch o hyd i restr o ffynonellau cyllid allanol pellach ar ein gwefan yma.

### Dim yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru?

Mae'n rhaid i chi fod yn aelod BFI FAN er mwyn cael mynediad at gyllid Canolfan Ffilm Cymru. I ymaelodi, cwblhewch ein Ffurflen Ymaelodi. Mae aelodaeth am ddim i sefydliadau cymwys ac yn cynnig mynediad i'n hystod o gyllid, cefnogaeth a buddion.

# Cysylltiadau

- Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067

- Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru - hana@filmhubwales.org / 02920 353740

# Atodiad

### Beth ydym yn ei ddiffinio fel Gŵyl Ffilmiau?

Cyflwyniad estynedig o ffilmiau, o amrywiol raddfeydd, mewn un neu ragor o leoliadau arddangos ac yn aml gyda chynnwys digidol. Weithiau o fewn un rhanbarth ond gall gynnwys teithio lluosog, neu ddigwyddiadau cymunedol. Yn gynyddol, gall gwyliau ffilm gynnwys gweithgareddau gydol y flwyddyn sydd yn datblygu y tu hwnt i set o ddyddiadau neilltuol. Yn aml mae gan wyliau bwynt gwerthu unigryw ond gyda themâu cyffredin fel arddangos talentau newydd, digwyddiadau creadigol arbennig a ffilmiau rhyngwladol a domestig newydd i ddenu cynulleidfaoedd newydd. Maen nhw'n ein galluogi i ddathlu amrywiaeth ar sgrin a datblygu mannau creadigol ar gyfer cynulleidfaoedd rheolaidd.